| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| Pwyllgor: | Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd |
| Dyddiad y cyfarfod: | 2 Rhagfyr 2014 |
| Teitl: | Grant Datblygu Gwefannau Cynghorau Tref a Chymuned – diweddariad |
| Awdur: | Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd dros dro |

**1.0 Cefndir**

1.1 Mae Llywodraeth Cymru wedi dyrannu cyllid i Gynghorau Sir er mwyn iddynt gynnig grant o hyd at £500 yr un i gynghorau tref a chymuned, gan gynnwys y rhai hynny sydd â gwefan eisoes, i'w wario ar ddatblygu gwefannau.

1.2 Pwrpas y grant oedd cynorthwyo cynghorau tref a chymuned i baratoi ar gyfer y Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013, sy'n cynnwys darpariaethau lle byddai'n ofynnol i bob cyngor cymuned gyhoeddi gwybodaeth ar wefan.

1.3 Fe ddywedais wrth y Pwyllgor hwn ar 1 Hydref 2013 bod £20,000 o gyllid wedi ei ddyrannu tuag at gynorthwyo cynghorau tref a chymuned Ynys Môn i ddatblygu gwefannau a bod y dyraniad wrthi'n cael ei ddosbarthu i gynghorau cymuned. Cyflwynwyd adroddiadau cynnydd i'r Pwyllgor hwn ar 30 Ionawr, 26 Mawrth, 18 Mehefin ac 18 Medi 2014.

**2.0 Y Sefyllfa Ddiweddaraf**

2.1 Roedd yr arweiniad gwreiddiol a gafwyd gan Lywodraeth Cymru yn nodi bod angen defnyddio'r arian cyn diwedd y flwyddyn ariannol gyfredol. Mae awdurdodau lleol bellach wedi cael awdurdod gan Lywodraeth Cymru i gario'r arian drosodd i'w ddefnyddio yn ystod 2014/15. Y rheswm am hyn yw er mwyn cynnig mwy o hyblygrwydd a galluogi cynghorau tref a chymuned i baratoi'n well ar gyfer y gofyniad i gael gwefan mewn lle erbyn y daw'r rhannau perthnasol o'r Deddf Democratiaeth Lleol (Cymru) 2013 i rym yn 2015.

2.2 Dyma'r sefyllfa ddiweddaraf o ran dyrannu'r grant:

- 36 o gynghorau wedi hawlio'r grant
- 1 cyngor wedi rhoi gwybod i ni ei fod yn bwriadu hawlio'r grant
- 3 o gynghorau wedi rhoi gwybod i ni nad ydynt yn bwriadu hawlio'r grant (mae gan un o'r cynghorau yma wefan mewn lle eisoes)

## 3.0 Argymhelliad

3.1 Gofynnir i'r Pwyllgor nodi'r sefyllfa ddiweddaraf.

**Huw Jones**
**Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd dros dro** **24 Tachwedd 2014**